COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 103

Amseru: Brys

Teitl: Estyn y Cynllun Braenaru

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:
Menter sy'n newid diwylliant yw'r Cynllun Braenaru. Mae'r cynllun wedi'i anelu at adnabod achos craidd ymddygiad troseddol lefel is er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath yn gynnar yn ystod taith troseddu unigolyn. Gwneir hyn drwy asesiad a gweithredu cynllun cefnogi personol ar gyfer pob unigolyn, yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd yn ystod ei asesiad.

Mae'r cynllun hwn wedi bodoli ers mis Ebrill 2018, a chynhaliwyd adolygiad ddiwedd y flwyddyn. Oherwydd nifer prin o gyfeiriadau i'r cynllun, methodd yr adolygiad nodi pa un ai a fu'r cynllun yn effeithiol ai peidio, wrth sicrhau gwerth am arian. Mae'r cynllun yn medru arddangos gostyngiad mewn anghenion a nodwyd ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan; fodd bynnag, mae angen gwell dealltwriaeth o ran ei effeithiolrwydd, yn ogystal ag ystyried yr ymagwedd o fewn meysydd plismona eraill. Mae angen estyn y cynllun hwn er mwyn caniatáu ar gyfer uchafu nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan, yn ogystal â gwerthuso dewisiadau posibl eraill o ran cyflenwi gwasanaeth. Gwneir penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol gweithgarwch dargyfeiriol yn Nyfed-Powys yn ystod yr estyniad hwn.

Argymhelliad: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu I gymeradwyo estyn y cytundeb gyda'r darparwr presennol, Gwalia, am 3 mis o Ebrill I Fehefin 2019. Nid yw Gwalia'n codi tâl ychwanegol am ddarparu'r estyniad hwn.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 12/4/2019